## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar gymeradwyo Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2004 ar 19 Hydref, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 2 Tachwedd 2004

**At Mick Bates:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2004 ynghylch cyflwyno Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2004, cytunais i roi ymateb ysgrifenedig manwl i chi i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych ynglyn â'r cynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu.

Yn gyntaf, nodwyd eich pryderon ynghylch cost y cynllun. Telir y costau gwariant gan gyllideb cynllun cenedlaethol clefyd y crafu a ddelir yn ganolog gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer Prydain Fawr. Bydd DEFRA yn parhau i dalu'r costau hyn hyd diwedd y cynllun ar ei ffurf bresennol. Cyfanswm cyllideb cynllun cenedlaethol clefyd y crafu (NSP) a ddyrannwyd ar gyfer ariannu'r rhaglen yw £28 miliwn, a dyrannwyd tua £9.5 miliwn i gynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu a chynllun gwirfoddol diadellau clefyd y crafu. Disgwylir y caiff tua chwarter o hyn ei wario mewn cysylltiad â Chymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Gynulliad Cymru.

Yn ail, gofynnwyd gennych pa fesurau bioddiogelwch a drafodwyd. Ni fydd gweithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys unrhyw fesurau bioddiogelwch ychwanegol, er y bydd trefniadau bioddiogelwch arferol, wrth gwrs, yn gymwys. Fel arfer, cesglir defaid y bwriedir eu difa yn fyw gan gludwyr wedi'u contractio gan yr NSP i'w cludo i ladd-dy arbenigol yr NSP, lle y gellir cael gwared arnynt heb y risg posibl o ledaenu clefyd. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynllun stoc trig a chynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu. Mae'r cynllun stoc trig yn cynnwys casglu a chael gwared ar stoc trig a fu farw lle nad yw'n amlwg beth oedd y rheswm dros hyn. Dosbarthwyd y canllawiau bioamrywiaeth ar gyfer y cynllun stoc trig i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynllunio ar 15 Hydref 2004.

Bydd cynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu o fudd i fusnesau ffermio drwy ddileu clefyd y crafu oddi ar ffermydd a lleihau'r risg y gall clefyd y crafu ddigwydd eto. Gall ffermwyr y mae'r dull genoteipio'n gymwys ar eu cyfer gadw rhai o'u defaid, sy'n golygu bod hwn yn ateb cynaliadwy sy'n gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffermio cynaliadwy a bioamrywiaeth. Byddai'r ffermwyr hyn hefyd yn sefydlu diadell ag ymwrthedd, a fyddai'n eu helpu yn y tymor hwy. Gall ffermwyr a fydd yn ailstocio gadw eu busnesau da byw. Gall y rheini sy'n gysylltiedig â'r gwaith o allforio defaid bridio allforio unrhyw ddefaid bridio sydd ag ymwrthedd llwyr (genoteip ARR/ARR) i Aelod wladwriaethau eraill hyd yn oes os cafwyd achos o glefyd y crafu ar eu fferm, yn unol â'r rheoliad.

Yn olaf, nodwyd pryder gennych ynghylch goblygiadau hyn ar y ddiadell yr effeithiwyd arni gan y prawf genoteipio a gofynnwyd gennych a fydd yn rhaid i ffermwyr gadw cofnodion unigol o'r defaid sydd wedi'u tagio. Ers lansio cynllun cenedlaethol clefyd y crafu yn 2001, caiff pob dafad sydd wedi cael prawf genoteip ddyfais adnabod electronig ar ffurf bolws rwmenol, sef transbonder microsglodyn a gedwir mewn silindr ceramig bach. Mae gan bob bolws rif adnabod unigol, a gellir ei ddarllen drwy ddefnyddio sganiwr. Bydd gan y tîm samplu gyflenwad o dagiau clust os bydd ffermwr am dagio ei ddefaid er mwyn adnabod genoteipiau ei ddiadell yn hawdd. Yn ogystal, o dan gynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu, darperir tystysgrifau genoteip anghyfyngedig ar gyfer defaid math 1 a darperir tystysgrifau genoteip cyfyngedig ar gyfer mamogiaid math 2.

Buom yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun hwn mor hyblyg â phosibl o fewn cylch gwaith deddfwriaeth yr UE. Mae'r cynllun yn bwysig o ran helpu i gynyddu ymwrthedd genetig y ddiadell genedlaethol i glefyd y crafu ac yn ei dro helpu ein

diwydiant defaid i wrthsefyll ansicrwydd y farchnad. Parheir i adolygu'r cynllun ac os bydd unrhyw materion o bryder penodol yn codi bydd Comisiwn yr UE yn ymdrin â hwy.

**At Helen Mary Jones:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2004 ynghylch cyflwyno Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2004, cytunais i roi ymateb ysgrifenedig manwl i chi i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych ynglyn â chynllun gorfodol diadellau clefyd y crafu.

Yn gyntaf, mynegwyd pryder gennych ynghylch effaith genoteipio diadell gyfan a symud genoteipiau sydd â llai o ymwrthedd ar fridiau lleol a phrin a diadellau organig a chynefin yng Nghymru. Gallaf roi sicrwydd i chi, wrth weithredu rheoliad yr UE, byddwn mor hyblyg â phosibl a gall ffermwyr wneud cais am randdirymiadau. Mae'r rhain yn cynnwys oedi am hyd at bum mlynedd cyn difa anifeiliaid a chaniatáu anifeiliaid nad oes ganddynt y genoteip penodol ar y daliad. Bydd hyn yn golygu y gellir cadw nifer ymarferol o ddefaid yn y ddiadell ac y bydd yn osgoi achosion o fewnfridio. Bydd cynghorwr milfeddygol cynllun cenedlaethol clefyd y crafu yn trafod gyda ffermwyr a yw eu diadell yn gymwys. Gall ffermwyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad lle na dderbyniwyd eu cais am randdirymiad. Byddwn yn monitro effaith rheoliadau'r UE ac os oes yna unrhyw faterion o bryder penodol byddwn yn ymdrin â'r rhain gyda Chomisiwn yr UE.

Yn ail, mynegwyd pryder gennych bod rhanddeiliaid yn ystyried bod y cyfraddau iawndal yn isel ac mai ffermwyr fyddai'n gorfod talu am brisiad annibynnol o ran iawndal. Telir iawndal ar gyfer anifeiliaid y mae'n rhaid eu difa ac na allant fynd i mewn i'r gadwn fwyd yn unol â gwerth presennol ar y farchnad. Y gyfradd safonol fydd £90 ar gyfer anifeiliaid llawndwf, £30 ar gyfer mamogiaid mewn diadell sydd â rhanddirymiad a £50 ar gyfer oen neu fyn gafr. Cynigir cyfradd o £150 ar gyfer embryonau ac uchafswm o £5 ar gyfer ofa. Adolygir y cyfarddau iawndal ar ôl cyfnod o amser i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu gwerth y farchnad.

Rhoddir cymorth hefyd o ran genoteipio a dod o hyd i darddiad stoc cyfnewid. Mae'r cynllun yn cynnig dau brawf genoteip am ddim am bob anifail a gaiff ei ddifa er mwyn gallu dod o hyd i anifail addas arall yn ei le. Os ceir anawsterau efallai y bydd cynghorydd milfeddygol yr NSP yn argymell rhagor o brofion genoteip am ddim ar yr achos. Yn ogystal, telir hyd at £500 am bob hwrdd tuag at y gost o brynu hyrddod cyfnewid a chanddynt genoteip sydd â'r ymwrthedd fwyaf. Y rheswm dros hyn yw mantoli pris cymharol uchel hyrddod math 1. Nid yw cynnig y cymorth hwn yn amod gorfodol deddfwriaeth yr UE ac fe'i bwriedir fel cyfraniad yn hytrach na thalu'r gost gyfan. Bydd ffermwyr sydd ag anifeiliaid ag iddynt werth uchel yn dewis cael prisiad, ac o ganlyniad byddant yn cael mwy o iawndal na'r gyfradd safonol.

Yn olaf, mynegwyd pryder arbennig gennych ynghylch effaith glynu wrth ofynion cynlluniau amaeth-amgylcheddol os oes rhaid clirio diadellau o'r tir am gyfnod o amser ar ôl canfod achos o glefyd y crafu. Efallai y bydd hyn yn effeithio ar unrhyw arian Tir Mynydd y bydd ffermwr yn ei gael, yn dibynnu ar ei amgylchiadau unigol. O dan Tir Mynydd, mae angen bod gan ffermwyr o leiaf 0.1 uned da byw/ha i fod yn gymwys i gael taliad. Efallai na fydd ffermwr yn gallu bodloni hyn os caiff ei ddefaid eu difa o dan gynllun premiwm blynyddol defaid 2004, y daeth y cyfnod cadw hwnnw i ben ar 15 Mai 2004. Gallai difa defaid hefyd effeithio ar welliannau Tir Mynydd, sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ffermwyr a all ddangos bod ganddynt lai nag 1.2 uned da byw/ha.

Disgwylir y bydd y rheolau ar gyfer Tir Mynydd 2006 yn parhau i ddisgwyl i hawlwyr fodloni'r isafswm gofynion o ran dwysedd stocio. Yn ogystal, er mwyn sicrhau'r taliad uchaf posibl a'ch bod yn gymwys i gael gwelliannau bydd angen data stocio defaid. O ganlyniad, bydd angen ceisio eithriadau gan y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu taliad yn 2005 a blynyddoedd diweddaraf ar gyfer diadellau â chlefyd y crafu.

Efallai na fydd unrhyw ffermwr defaid a chanddo achos wedi'i gadarnhau o glefyd y crafu ac sy'n rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol, fel cynllun Tir Mynydd neu'r cynllun ardaloedd amgylcheddol sensitif, yn gallu cydymffurio â gofynion yr argymhellion rheoli ac efallai y caiff ei gytundeb ei derfynu a'i daliadau eu hatal. Fodd bynnag, gan fod iawndal yn daladwy ar gyfer anifeiliaid a gaiff eu diffa, dylai colledion fod yn gymharol fach lle y bydd ffermwr yn ailstocio'n gyflym.

I gynorthwyo â'r broses o ailstocio gall ffermwr ddefnyddio cofrestr hyrddod yr NSP, sy'n cynorthwyo â'r broses o brynu a gwerthu hyrddod sydd wedi cael prawf genoteip. Mae'r gofrestr wedi cael cyhoeddusrwydd eang a gellir gweld copi ohoni ar-lein neu gall ffermwyr ffonio llinell gymorth yr NSP a bydd aelod o staff NSPAC yn cynnal chwiliad ar eu rhan. Os caiff ffermwyr anawsterau difrifol wrth ddod o hyd i famogiaid cyfnewid, mae rhanddirymiad ar gael tan 1 Ionawr 2006 i gyflwyno wyn benyw nad ydynt yn feichiog ac na wyddys eu genoteip. Disgwylir i'r broses o ganfod tarddiad anifeiliaid addas ddod yn haws wrth i aelodaeth o gynllun cenedlaethol clefyd y crafu gynyddu ac wrth i anifeiliaid â mwy o ymwrthedd ddod ar gael.

Buom yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynllun hwn mor hyblyg â phosibl o fewn cylch gwaith deddfwriaeth yr UE. Mae'r cynllun yn bwysig o ran helpu i godi ymwrthedd genetig y ddiadell genedlaethol i glefyd y crafu drwy gymryd camau ar ffermydd sydd ag achos wedi'i gadarnhau o glefyd y crafu. Parheir i adolygu'r cynllun ac os bydd unrhyw materion o bryder penodol yn codi bydd Comisiwn yr UE yn ymdrin â hwy.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38465 a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 3 Tachwedd 2004**

**At Mick Bates:**

Yn ystod y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref, cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith gyda phobl ifanc yn dilyn cynhadledd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy yng Nghaerdydd ym mis Mawrth.

Mae datganiad nrg4SD Caerdydd yn ymrwymo aelodau i ddatblygu polisïau ar gyfer y dyfodol i barhau i gynnwys pobl ifanc, i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd addysg a chynyddu cyfranogiad pobl ifanc drwy fforymau ieuenctid a phrosesau addysgol.

Mae gan y rhaglen ar gyfer y cynulliad cyffredinol a phumed cynhadledd nrg4SD yn Sumatra ddigwyddiad sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cymdeithasau ieuenctid. Yn dilyn fy ngorchymyn iddynt yn y gynhadledd yng Nghaerdydd, gobeithio y gall cynrychiolydd o Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy fynychu'r gynhadledd fel aelod o ddirprwyaeth Cymru.

Cynrychiolir Fforwm Ieuenctid Cymru ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ar banel cynghori addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2001. Rhoddwyd y dasg o gynhyrchu strategaeth Cymru gyfan ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang i'r panel erbyn gwanwyn 2005 fel un o 10 prif ymrwymiad ein cynllun gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy ac eraill gymryd rhan yn y gwaith o lunio polisïau ar ran pobl ifanc yng Nghymru.

**At Ieuan Wyn Jones:**

Yn ystod y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref, cytunodd y Prif Weinidog i ystyried eich cais i gael adroddiad wedi'i ddrafftio i amlinellu'r trefniadau a wnaed yng nghynhadledd nrg4SD yng Nghaerdydd ac i roi crynodeb o sut y caiff penderfyniadau eu trosglwyddo i'r sector cyhoeddus.

Cytunodd y rhwydwaith ar ddatganiad Caerdydd yn ystod y gynhadledd, ac yr wyf wedi amgau copi ohono er gwybodaeth. Mae pwynt 8 y datganiad yn nodi'r camau y cytunwyd arnynt yn nhrafodaethau'r uwchgynhadledd ac yr wyf wedi amgáu tabl yn nodi sut y cânt eu trosglwyddo i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen at hyrwyddo ein hymrwymiad o ran polisïau ar gyfer y dyfodol gyda'r rhwydwaith ac yr ydym wrthi'n cynhyrchu pecyn anffurfiol ar Ddatblygu Cynaliadwy yng Nghymru i rannu ein harfer da â rhanbarthau sy'n bartneriaid yn y cynulliad cyffredinol ym mis Chwefror.

**Datganiad Caerdydd, 25 Mawrth 2004**

1. Yr ydym ni, gynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol a thalaith o bob rhan o'r byd, a ddaeth at ein gilydd ym mhedwerydd cynhadledd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy yng Nghaerdydd, Cymru, o 22-25 Mawrth 2004, yn cadarnhau ein hymrwymiadau i wneud datblygu cynaliadwy yn realiti ymarferol i'n pobl.

2. Yn ystod adeg o ansicrwydd byd-eang parhaus, lle yr ymddengys nad oes gan Genedl-wladwriaethau y pwer yn aml, yr ydym yn datgan pwysigrwydd gweithio ar y lefel ranbarthol, drwy'r byd cyfan a chyda phob rhan o'r gymdeithas, i feithrin amodau sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyfiawnder, cydraddoldeb, goddefgarwch a hunaniaeth lleol lle y gall pobl ddatblygu ac sy'n sail ar gyfer cydfodolaeth heddychol.

3. Fel yr atgoffodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ni yn ei neges o gefnogaeth, yr ydym yn gwybod bod angen polisïau i frwydro yn erbyn cynhesu byd-eang, lleihau llygredd a darparu dŵr yfed a glanweithdra diogel. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw dod o hyd i'r adnoddau a chael y penderfyniad i'w rhoi ar waith. Efallai yr ymddengys y polisïau hyn yn gostus, ond bydd y gost o barhau ar hyd ein llwybr presennol yn llawer fwy.

4. Ond ni all y llywodraeth weithredu hyn ar ei phen ei hun. Fel cynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol a thalaith yr ydym yn ymrwymo ein hunain i ddod o hyd i ffyrdd o weithio gyda phob rhan o'r gymdeithas sifil i gyflwyno datblygu cynaliadwy yn cynnwys addysgu pobl o ran sut y mae eu dewisiadau a'u penderfyniadau yn effeithio ar ein pobl a'r byd.

5. Yr ydym wedi clywed gan bobl ifanc yn ystod ein cyfarfodydd sydd wedi ein herio i greu dyfodol gwahanol iawn. Mae'n rhaid i ni eu cynnwys yn y broses gwneud polisïau mewn ffordd gyfunol, a gweithio mewn partneriaeth ar faterion sy'n bwysig yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn addysgol. Yr ydym yn ymrwymo ein hunain i sicrhau, trwy ein gwaith, y gallant leisio eu barn er mwyn i ni allu bodloni'r disgwyliadau a osodwyd arnom.

6. Credwn fod llywodraethau Rhanbarthol a Thalaith yn allweddol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy. Yr ydym yn ymrwymo ein hunain i chwarae rhan lawn o ran hyrwyddo Cynllun Gweithredu Johannesburg a Nodau Datblygu'r Mileniwm. Yr ydym yn ailddatgan pwysigrwydd dileu tlodi, newid patrymau defnyddio a chynhyrchu, a diogelu a rheoli'r sail adnoddau naturiol ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol fel amcanion cyffredinol, a gofynion hanfodol datblygu cynaliadwy. Byddwn yn datblygu strategaethau a ffyrdd o weithio i gyflawni hyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu a rhannu arfer gorau a dechrau partneriaethau yn rhyngwladol i'w gweithredu.

7. Yn wyneb pwysau globaleiddio, cadarnhawn yr angen i barchu, cryfhau a dathlu ein natur unigryw a'n hamrywiaeth, er mwyn parchu gwerthoedd, diwylliant, hunaniaeth a thraddodiadau pobl, a'n bod yn gweithio gyda'n gilydd drwy ddangos parch ac undod. Gofynnwn hefyd bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod newidiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n deillio o globaleiddio yn dod â buddiannau i bob rhan o'r byd, a'u bod yn atebol yn ddemocrataidd.

8. Yr ydym yn ymrwymo ein hunain, uwchlaw popeth, i gymryd camau penodol yn y meysydd yr ydym wedi cytuno ar bolisïau rhwydwaith yn ein trafodaethau yn yr uwchgynhadledd:

- sicrhau bod gennym strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n ategu ac yn llywio holl bolisïau ein llywodraeth;
- cyflwyno prosesau rheoli dŵr strategol a chynaliadwy yn unol â Chynllun Gweithredu Johannesburg;
- hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a mesurau eraill i fodloni heriau newid yn yr hinsawdd a helpu i gyrraedd targedau Kyoto;
- sicrhau bod masnach yn deg ac yn foesegol er mwyn sicrhau y gall pawb fyw bywydau hir, iach a chreadigol, gan ddefnyddio prosesau caffael y llywodraeth i hyrwyddo newid o'r fath;
- hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y sector twristiaeth.

9. Yr ydym yn ymrwymo ein hunain i ddatblygu polisïau ar gyfer y dyfodol fel rhwydwaith:

- hyrwyddo dulliau cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy yn unol â Chynllun Gweithredu Johannesburg, yn cynnwys atgyfnerthu cyfrifoldeb corfforaethol;
- hyrwyddo ffyrdd o gynnwys a grymuso mwy o bobl yn y gymdeithas sifil, yn cynnwys defnyddio dulliau electronig o gymryd rhan;
- parhau i gynnwys pobl ifanc a sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd addysg;
- cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol a phobl gynhenid;
- cytuno ar ddangosyddion cynnydd cyffredin;
- sicrhau ein bod yn gwneud defnydd cynaliadwy o'n hardaloedd arforol;
- sicrhau bod polisïau caffael cyhoeddus yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy gydol y gadwyn gyflenwi;
- hyrwyddo arferion masnach deg ar bob lefel;
- cynyddu faint y mae pobl ifanc yn cymryd rhan drwy fforymau ieuenctid a phrosesau addysgol;
- datblygu rhaglenni dysgu gydol oes sy'n ystyried datblygu cynaliadwy fel un o'i werthoedd craidd. Byddai hyn yn rhoi'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth i bob dinesydd greu dyfodol cynaliadwy;
- gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol.

10. Yr ydym yn cefnogi rôl arweinyddiaeth y Cenhedloedd Unedig fel y sefydliad mwyaf byd-eang a chynrychioliadol yn y byd, sydd yn y lle gorau i fynd i'r afael â heriau strategol datblygu cymunedol. Byddwn yn cyflwyno ein gwaith a'n hymrwymiadau yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn Efrog Newydd fel enghraifft o batrwm amlochrog o weithio mewn partneriaeth, a byddwn yn ceisio cael cydnabyddiaeth o bwysigrwydd ein cylch llywodraethu drwy adolygiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol o gyfranogiad rhanddeiliaid.

11. Ar ddechrau ein cynhadledd, atgoffodd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru nad yw datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwneud newid bach i waith presennol ac ychwanegu'r gair 'cynaliadwy'. Yr ydym ni, y rhanbarthau sy'n bresennol yng Nghaerdydd, yn cydnabod yr her hon ac yn ymrwymo ein hunain i greu newid mawr gwirioneddol mewn polisi sy'n ceisio cysoni ein nodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i ddull cydlynol a newydd.

12. Yr ydym yn galw ar ranbarthau'r byd na allant fod yng Nghaerdydd i ystyried ein datganiadau polisi ac ymuno â'n rhwydwaith i ddangos eu hymrwymiad i'r achos hanfodol hwn.

13. Hoffai nrg4SD ddiolch i Gymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru am y croeso cynnes a'r lletygarwch yn ystod y gynhadledd hon ac mae'n edrych ymlaen at barhau â'r ddadl a'r sgwrs gyffrous hon ynghylch y materion hyn yn Sumatra yn 2005.

**Adroddiad Gweithredu Datganiad Caerdydd**

| YMRWYMIAD | | GWEITHREDU |
|---|---|---|
| 1. | Sicrhau bod gennym strategaethau effeithiol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy sy'n ategu ac yn hyrwyddo holl polisïau ein llywodraeth. | Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref. |
| 2. | Rheoli dŵr mewn ffordd strategol a chynaliadwy yn unol â Chynllun Gweithredu Johannesburg. | Cafodd Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE ei throsi i ddeddfwriaeth y DU ar ddiwedd 2003 a bydd yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r materion y cytunwyd arnynt. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw'r awdurdod cymwys ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb yng Nghymru a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff perthnasol eraill. |
| 3. | Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a mesurau eraill i fodloni'r heriau o ran newid yn yr hinsawdd a helpu i gyrraedd targedau Kyoto. | Mae 10 prif ymrwymiad perthnasol y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy yn nodi'r canlynol:<br>• Erbyn 2010 caiff 100 y cant o'r trydan a ddefnyddir ym mhob adeilad y Cynulliad ei gyflenwi gan ffynonellau adnewyddadwy neu gynhyrchwyr dosbarthu lleol o ansawdd da; a byddwn yn gweithio tuag at ffurf debyg ar gyfer adeiladau eraill y sector cyhoeddus.<br>• Bydd Llywodraeth y Cynulliad, ei asiantaethau a'r GIG yng Nghymru yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y defnydd o ynni yn ei ystadau.<br>• O fis Ionawr 2005 byddwn yn nodi ym mhob un o'n contractau ar gyfer adeiladau cyhoeddus newydd neu adeiladau cyhoeddus sydd wedi'u hadnewyddu a gafodd eu caffael gan neu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, bod y cynllun yn cyflawni fel isafswm, y safon BREEAM 'da iawn', neu ei gyfwerth, a'r safon BREEAM 'ardderchog' lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni safonau tebyg ar gyfer adeiladau cyhoeddus newydd ac adeiladau cyhoeddus sydd wedi'u hadnewyddu y maent yn gyfrifol amdanynt.<br>• Erbyn 2006 byddwn wedi sefydlu prosiectau peilot sy'n archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio atebion ynni adnewyddadwy yn ein polisïau a'n rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith cartrefi incwm isel sy'n agored i niwed, yn arbennig y rheini na allant gael budd o atebion gwella traddodiadol.<br>• Bydd y Cynulliad a'i hasiantaethau yn annog y broses o ddatblygu diwydiant 'adnewyddadwy' micro-gynhyrchu cynhenid yng Nghymru, gan dalu sylw'n benodol i gyfleoedd ar gyer busnesau bach a chanolig, Awdurdod |

| | | |
|---|---|---|
| | | Datblygu Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a lle y bo'n briodol, sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, i weithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu ymagwedd gydlynus.<br>• Byddwn yn comisiynu prosiect i ymchwilio i'r mantesion a'r rhwystrau o ran annog pobl i ddefnyddio tanwydd amgen yng Nghymru, fel biodanwydd, bionwy, nwy naturiol a hydrogen.<br>• Erbyn gwanwyn 2005, byddwn hefyd yn cyflwyno'r broses asesu amgylcheddol ECO-Gartrefi ac yn pennu safonau effeithlonrwydd ynni sy'n uwch o lawer na'r safon sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan reoliadau adeiladau ar gyfer pob cartref newydd a adeiladir yng Nghymru gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan ddefnyddio grant tai cymdeithasol.<br><br>Mae'r adran ar newid yn yr hinsawdd yn y cynllun yn nodi'n benodol y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu ei gwaith ar newid yn yr hinsawdd yn sylweddol drwy:<br>• weithredu'r Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni ar daws pob sector erbyn **mis Tachwedd 2004;**<br>• hyrwyddo ein polisïau ynni glân yng Nghymru, drwy ei gyhoeddi erbyn **mis Rhagfyr 2004** a rhoi cynllun gweithredu ynni glân ar waith, a fydd yn cynnwys sefydlu rôl gynyddol i Gymru wrth ddatblygu technolegau adnewyddadwy y genhedlaeth nesaf;<br>• datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ac ynni arloesol yn y gymuned drwy randdeiliaid ac asiantaethau gyda budd cymorth cyllid Ewropeaidd erbyn **mis Ionawr 2005**;<br>• gydag Ymddiriedolaeth Garbon Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill, gweithredu newid mawr wrth ddewis y technegau effeithlonrwydd ynni diweddaraf, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach mewn adeiladau o bob math yng Nghymru. Bydd hyn yn tynnu sylw at astudiaeth yr Ymddiriedolaeth Garbon o ddefnyddio ynni a gollyngiadau carbon yng Nghymru, a ddisgwylir yn ystod **gwanwyn 2005**;<br>• gyda'r Adran Masnach a Diwydiant, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac eraill, atgyfnerthu'r sail wybodaeth/ymchwil yng Nghymru ar gyfer ynni morol newydd a systemau economi hydrogen, yn cynnwys cymryd rhan mewn asesiad amgylcheddol strategol o ddŵr Cymru o ran ynni adnewyddadwy - erbyn **canol 2005**;<br>• sicrhau bod ein polisïau datblygu ar ffermio, coedwigoedd a chefn gwlad yn helpu i gadw'r carbon sydd wedi'i storio ym mhridd Cymru;<br>• sicrhau bod golau ar gyfer cefnffyrdd yn defnyddio technolegau adnewyddadwy i arbed o leiaf 20 y cant o ynni;<br>• comisiynu astudiaeth i archwilio dichonoldeb gwrthbwyso'r carbon a gynhyrchir o ganlyniad i'r lefel gynyddol o draffig sy'n deillio o gynlluniau ffordd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynulliad. |
| 4. | Sicrhau bod masnach yn deg ac yn foesegol er mwyn sicrhau y gall pawb fyw bywydau hir, iach a chreadigol, gan ddefnyddio prosesau caffael y llywodraeth i hyrwyddo newid o'r fath. | Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion yn ystod y ddwy flynedd nesaf i weithredu ymrwymiad y Cynulliad i ddod yn wlad masnach deg fel un o ymrwymiadau ei chynllun gweithredu datblygu cynaliadwy. |
| 5. | Hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y sector twristiaeth. | Mae Bwrdd Croeso Cymru yn parhau i sicrhau y caiff datblygu cynaliadwy ei brif ffrydio yn ei holl weithgareddau a'i fod yn un o brif ystyriaethau ei waith.<br><br>Mae Bwrdd Croeso Cymru yn ymgymryd ag adolygiad canol tymor o 'Cyflawni ein Potensial', strategaeth twristiaeth Cenedlaethol Cymru sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd fel un o'i brif egwyddorion. Yn dilyn yr ymgynghoriad, sy'n cau ar 31 Ionawr 2005, bydd Bwrdd Croeso Cymru yn datblygu fersiwn wedi'i ddiweddaru o 'Cyflawni ein Potensial'.<br><br>Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn drafftio fframwaith ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, sy'n dyfynnu'r diffiniad o dwristiaeth gynaliadwy y cytunwyd arno yng nghynhadledd nrg4SD yng Nghaerdydd yn uniongyrchol. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gobeithio ymgynghori ar hyn ym mis Ionawr/Chwefror y flwyddyn nesaf. Bydd y fframwaith hwn yn rhoi golwg manylach i ni o dwristiaeth gynaliadwy a sut y gellir ei roi ar waith. |
| 6. | Yr ydym yn ymrwymo ein hunain i sicrhau, drwy ein gwaith, y gall pobl ifanc leisio'u barn er mwyn i ni allu bodloni'r disgwyliadau a osodwyd arnom. | Mae gan y rhaglen ar gyfer y cynullaid cyffredinol yn Sumatra ym mis Chwefror ddigwyddiad wedi'i neilltuo ar gyfer cymdeithasau ieuenctid yr ydym yn disgwyl cynrychiolydd o Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy i fynychu. Yn ogystal, mae Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy yn aelod gweithredol o'r Panel Cynghori ar Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2001 a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu strategaeth Cymru-gyfan ar gyfer addysg dros ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang erbyn gwanwyn 2005. |

**Gwybodaeth yn ychwanegol at y ddadl yn ystod y Cyfarfod Llawn ar y cynllun gweithredu effeithlonrwydd ynni ar 19 Hydref, a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 9 Tachwedd 2004.**

**At Sandy Mewies:**

Diolch i chi am eich ymateb i'm datganiad ar y ddadl uchod.

Nod 'Arbed Ynni Cymru' yw cynyddu lefel y diddordeb mewn effeithlonrwydd ynni ymhlith pobl Cymru, yn y sector domestig, busnes a chyhoeddus. Ei nod hefyd yw amlygu gwaith yr asiantaethau sydd eisoes yn gysylltiedig â'r gwaith o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yng Nghymru a darparu ymagwedd bragmatig ac eglurhaol tuag at arferion effeithlonrwydd ynni. Yn olaf, mae'n gwneud y cysylltiad rhwng y defnydd o ynni a newid yn yr hinsawdd, sy'n destun diddordeb a phryder cynyddol heddiw.

Gofynnwyd cwestiwn gennych ynglyn â sut y cynhelir y broses werthuso a monitro. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ddata sy'n ymwneud â defnyddio ynni a gollyngiadau carbon yn gwneud Cymru'n gydnaws â Lloegr. Byddai angen allosod ffigurau ar gyfer Cymru yn unig ar gyfer gwneud gwerthusiad cywir, ac felly ymgymryd â gwaith monitro. Mae'r asiantaethau sydd eisoes yn gysylltiedig â'r gwaith o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn niferus ac yn amrywiol ac yn amlwg yn gweithio i'w cylch gwaith eu hunain. Y prif asiantaeth i leihau ei gollygiadau carbon ar yr ochr annomestig yw'r Ymddiriedolaeth Garbon, sydd wedi comisiynu astudiaeth i geisio nodi gwaelodlin ar gyfer Cymru. Disgwylir y canlyniadau yn y Flwyddyn Newydd a byddant yn helpu i lywio ei rhaglen o weithgareddau yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

Mae'n ofynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno adroddiad blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r ddogfen 'Arbed Ynni Cymru' pan ddarperir y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ar ffurf adroddiad blynyddol.

Gobeithio bod yr ymateb hwn yn ateb eich pryderon penodol.

**At Janet Davies:**

Diolch i chi am eich ymateb i'm datganiad ar y ddadl uchod.

Yr oedd eich cwestiwn cyntaf yn ymwneud â'r ynni gwyrdd a ddefnyddir yn adeiladau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd, mae 100 y cant o'r trydan a ddefnyddir ym mharc Cathays a bae Caerdydd yn deillio o ffynonellau adnewyddadwy. Yn gyffredinol, mae ynni adnewyddadwy yn cyfrif am 70 y cant o'r ynni a ddefnyddir ar draws yr ystad gyfan. Prynir yr ynni adnewyddadwy neu'r ynni gwyrdd hwn ar gyfer parc Cathays a bae Caerdydd gan Nwy Prydain. Mae'n disgrifio ynni gwyrdd fel ynni sy'n deillio o ffynonellau adnewyddadwy, nad yw'n cynhyrchu carbon deuocsid, neu ei fod yn cynhyrchu llai o lawer o garbon deuocsid i ddarparu dewis amgen glanach a mwy cynaliadwy i losgi tanwydd ffosil. Mae'r holl ffynonellau ynni a ddarperir ganddo yn Brydeinig ac yn cynnwys nwy hydro-electrig, solar, gwynt, bio-màs a thirlenwi. Er gwybodaeth ychwanegol, cyfeirir at bio-màs fel ynni brown gan fod llosgi bio-màs yn cynhyrchu gollyngiadau carbon deuocsid oherwydd caiff swm cyfwerth ei amsugno yn ystod twf bio-màs.

Mewn ymateb i'ch ymholiad mwy cyffredinol ar y swm o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir, mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar raddfa a lleoliad pob technoleg priodol.

O ran caniatâd niwclear, byddai angen pwerau o dan Ddeddf Trydan 1989—mae'r pwerau hyn yn cynnwys cynhyrchu gwirioneddol, gwifrau uwchben a chaniatâd cynllunio tybiedig. Nid Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd â'r pwerau ond yr Adran Masnach a Diwydiant. Fodd bynnag, maent yn ddarostyngedig i drafodaethau ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, yr Adran Masnach a Diwydiant fydd yn penderfynu'r ceisiadau ar gyfer cynhyrchu pwer yng Nghymru er y bydd yn rhaid ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghorai statudol, ac ni fyddai gwrthwynebiad gan Lywodraeth y Cynulliad yn arwain at ymchwiliad cyhoeddus lleol, tra y byddai gwrthwynebiad gan awdurdod lleol yn arwain at un yn awtomatig.

Yn ogystal, mae angen nifer o gydsyniadau eraill drwy'r awdurdod lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ogystal â'r Bwrdd Ymbelydredd Niwclear. Mae'r cydsyniadau olaf hyn yn ymwneud yn bennaf â materion amgylcheddol a diogelwch.

Fel y nodais yn ystod y ddadl, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r broses o ddatblygu unrhyw orsafoedd pwer niwclear newydd, a byddwn yn parhau i fynd ar drywydd opsiynau o ran effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

Gobeithio bod yr ymateb hwn yn ateb eich pryderon penodol.

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar y cynllun gweithredu effeithlonrwydd ynni ar 19 Hydref, a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 24 Tachwedd 2004**

**At Mark Isherwood:**

Codwyd pwynt gennych yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2004 yn ymwneud â Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995, a chan bod y Ddeddf hon ac effeithlonrwydd ynni domestig yn rhan o'm portffolio o gyfrifoldebau ysgrifennaf atoch i ymateb.

Roedd Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gynhyrchu strategaethau i gyflawni gwelliant o 30 y cant o ran effeithlonrwydd ynni. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau gyflwyno adroddiad yn flynyddol i Lywodraeth y Cynulliad ar y gwelliant o ran effeithlonrwydd ynni llety preswyl yn eu hardal. Cefais fy siomi gyda'r diffyg cynnydd a wnaed o ran Deddf Arbed Ynni yn y Cartref, a nodais fy mhryderon i'r awdurdodau ynglyn â'r pwysigrwydd y maent yn ei roi ar effeithlonrwydd ynni domestig ar sawl achlysur.

Credaf fod cyflwyno targed effeithlonrwydd ynni domestig i'r cytundebau policy ar gyfer 2004-07 rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau yn gam cadarnhaol iawn. Yr ydym wedi gofyn i awdurdodau gyflwyno targedau sydd o leiaf yn dyblu cynnydd presennol o ran Deddf Arbed Ynni yn y Cartref. Dull ar gyfer gwobrwyo awdurdodau ar sail cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt yw'r cytundebau polisi. Yn dilyn y broses negodi, credaf fod gan effeithlonrwydd ynni erbyn hyn broffil llawer uwch o fewn awdurdodau.

Yr wyf yn siwr y byddwch yn ymuno â mi i alw ar bob awdurdod yng Nghymru i ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain yn effeithiol, a sicrhau bod y nifer sylweddol o adnoddau allanol ar gael iddynt allu gyrraedd eu targedau cytundeb polisi. Er enghraifft, mae adnoddau ar gael i landlordiaid a chartrefi unigol o dan gynllun effeithlonrwydd ynni cartref Llywodraeth y Cynulliad, a hefyd gan gyflenwyr ynni a chanddynt nifer sylweddol o adnoddau o dan eu hymrwymiad effeithlonrwydd ynni.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ38464, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 23 Tachwedd 2004**

**At Brynle Williams:**

Yn ystod y sesiwn Hawl i Holi ar 19 Hydref gofynnwyd gennych, mewn cwestiwn atodol i OAQ38464, p'un a ddylai arian a atafaelir o ganlyniad i euogfarnu gwerthwyr cyffuriau gael ei neilltuo a'i ddefnyddio i helpu mentrau fel Prosiect Dawn ym Mae Colwyn. Yn ôl fy nealltwriaeth i, cafodd yr arian ei neilltuo ond penderfynais ysgrifennu atoch rhag ofn i mi gamddeall y sefyllfa.

Yr oedd fy ymateb gwreiddiol yn rhannol gywir ond efallai y bydd y wybodaeth gefndir ganlynol yn ddefnyddiol i chi. Mae'r Asiantaeth Adfer Asedau, a sefydlwyd o dan Ddeddf Enillion Troseddu 2002, yn cydgysylltu gweithgareddau ledled y DU wrth adfer asedau a feddiannwyd yn anghyfreithlon gan y rheini nad oes ganddynt hawl i'w cadw. Ei nod yw amddifadu troseddwyr o elw'r troseddau tra'n rhoi terfyn ar ffynonellau ariannol sefydliadau troseddol.

Mae gan yr asiantaeth safleoedd yn Llundain a Belfast ac mae yna bum tîm adfer asedau rhanbarthol. Lleolir y timau aml-asiantaeth hyn yng Nghymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, gogledd-ddwyrain Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr a Llundain. Mae'r swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dwyn ynghyd staff asiantaeth a phersonel o'r heddlu, Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Cudd-wybodaeth Droseddol, y Sgwad Troseddau Cenedlaethol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Chyllid y Wlad. Mae'r tîm yn ymrwymedig i atafaelu asedau troseddol, rhannu gangiau troseddwyr a mynd i'r afael ag achosion o wyngalchu arian.

Nid oes gan yr asiantaeth rôl i'w chwarae o ran dosbarthu elw a adferwyd o'r asedau troseddol a atafaelwyd. Trosglwyddir yr holl elw o asedau a atafaelwyd i'r Trysorlys. Caiff y Swyddfa Gartref gyfran o'r elw i ariannu ei hymrwymiadau presennol ar adfer asedau, sy'n cynnwys prosiectau cymunedol i ostwng troseddu. Mae prosiectau o'r fath yn cynnwys dyrannu £1.5 miliwn o'r elw o asedau a adferwyd i feithrin gallu o ran partneriaethau diogelwch cymunedol yn 2004-05, lle y derbyniodd Cymru £106,000.

O dan gynllun cymhelliant, bydd yr heddlu'n cael cyfran o'r asedau troseddol y byddant yn eu hadfer yn lleol. Bydd yr heddlu'n cael budd drwy gael traean o'r holl asedau a atafaelwyd sy'n uwch na £40 miliwn i helpu i ariannu'r ymrwymiadau presennol hynny. Felly, y budd mwyaf posibl i'r heddlu fydd £43 miliwn yn 2004-05, a fydd yn cynyddu i £65 miliwn yn 2005-06. Ni cheir unrhyw gyfyngiadau ar sut y dylai'r heddlu wario'r arian hwn felly efallai y bydd cyfle iddynt roi rhywfaint o'r arian i brosiectau yn y gymuned leol fel Prosiect Dawn ym Mae Colwyn.